# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 16 CHWEFROR 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| J E C Harris | A S Lewis | C E Lloyd |
| C Richards | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins a/ac J A Raynor

142. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Richards a R C Stewart fudd personol yng Nghofnod 153 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol";

2) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis a C E Lloyd fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 153 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

143. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Ionawr, 2017;

2) Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2017.

144. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

145. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

146. **HAWL I HOLI CYNGHORWYR.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 147. ADBORTH CRAFFU CYN PENDERFYNU - CLWSTWR CAM-DRIN YN Y CARTREF YR ADOLYGIAD COMISIYNU. (LLAFAR)

Rhoddodd y Cynghorydd P R Hood-Williams adborth craffu cyn penderfynu.

## 148. DINAS A SIR ABERTAWE ARFARNIAD DEWISIADAU AR GYFER CYFLWYNO GWASANAETHAU CAM-DRIN YN Y CARTREF YN Y DYFODOL DAN GWMPAS YR ADOLYGIAD COMISIYNU CEFNOGAETH I DEULUOEDD

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc adroddiad a oedd yn amlinellu'r broses a'r canfyddiadau gan nodi modelau cyflwyno newydd ar gyfer Clwstwr Cam-drin yn y Cartref Adolygiad Comisiynu Cymorth i Deuluoedd.

**PENDERFYNWYD:**

1) Bod yr opsiwn a ffefrir (2) fel a nodir yn adran 3 yr adroddiad fel mesur i wella perfformiad, gwneud y gwasanaeth yn fwy cadarn, a gwneud pethau'n fwy effeithlon, yn briodol i'w gyflwyno ar gyfer gweithredu.

## 149. BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio awdurdod dirprwyedig iddo ef a'r Prif Weithredwr lofnodi cytundeb mewn egwyddor ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Dirprwyo awdurdod ar y cyd i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i lofnodi cytundeb y Fargen Ddinesig mewn egwyddor ar y sail a ddisgrifir yn yr adroddiad;

2) Gofyn i swyddogion ddod ag adroddiad llawn ychwanegol i'r Cabinet a'r cyngor am unrhyw ymrwymiadau penodol yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 os caiff y cytundeb Bargen Ddinesig ei lofnodi mewn egwyddor.

## 150. YMATEB AELODAU'R CABINET I'R YMCHWILIAD CAMHS.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf adroddiad a oedd yn amlinellu ymateb i'r argymhellion craffu ac yn cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer cael cytundeb.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cytuno ar yr ymateb a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

## 151. CYFATHREBU UNEDIG (FFONAU)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn argymell y ffordd ymlaen ar gyfathrebu unedig gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM).

**PENDERFYNWYD**:

1) Y bydd yr awdurdod yn cydweithio â PABM drwy uno eu llwyfan teleffoni hynod hydwyth.

2) Y bydd yr awdurdod yn trawsnewid y ffordd y mae staff yn gweithio drwy leihau nifer y ffonau ar ddesgau a lleihau costau teleffoni;

3) Cyflwyno technoleg newydd megis Skype ar gyfer busnesau.

152. **ADOLYGIAD COMISIYNU GWASANAETHAU CEFNOGAETH I DEULUOEDD - CANOLBWYNTIO AR BLANT AG ANGHENION YCHWANEGOL AC ANABLEDDAU**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl ifanc ac Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach adroddiad a oedd yn cyflwyno'r opsiynau arfaethedig ar gyfer newidiadau i'r gwasanaethau sydd ar gael i blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau sydd wedi'u nodi drwy broses gomisiynu ehangach Adolygiad Comisiynu'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus ar y dewisiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

153. **PENODIADAU LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Blaenymaes | Y Cyng. June Burtonshaw |
| 2) | Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc | Mr Paul Ellement |
| 3) | Ysgol Gynradd Gorseinon | Mrs Kelly Roberts |
| 4) | Ysgol Gynradd Knelston | Mrs Kathryn David |
| 5) | Ysgol Gynradd Llangyfelach | Mrs Glynis Griffiths |
| 6) | Ysgol Gynradd Treforys | Y Cyng. Andrea Lewis |
| 7) | Ysgol Gynradd Newton | Mr David Cottle |
| 8) | Ysgol Gynradd Ystumllwynarth | Mr Stephen Williams |
| 9) | Ysgol Gynradd Pentrechwyth | Y Cyng. Mandy Evans |

| | | |
|---|---|---|
| 10) | Ysgol Gynradd St Thomas | Y Cyng. Clive Lloyd |
| 11) | Ysgol Gynradd Townhill | Y Cyng. Cyril Anderson |
| 12) | Ysgol Gynradd y Trallwn | Ms Sara Cook |
| 13) | Ysgol Gyfun Gellifedw | Mr Peter Eglitis |
| 14) | Ysgol Gyfun Gŵyr | Mrs Susan Rodaway |
| 15) | Ysgol Pen-y-Bryn | Mr Raymond Brown |
| 16) | Ysgol Pen-y-Bryn | Mr Edward Pitt |

154. **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

155. **GWERTHU SAFLE 16, HEOL Y CLÂS, PARC MENTER, ABERTAWE SA6 8DS.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am ystyried yr opsiynau ar gyfer gwerthu safle 16, Heol y Clâs, Parc Menter Abertawe.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.38 pm

**CADEIRYDD**

**Cyhoeddedig: 16 Chwefror 2017**